# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

**RHAN 7**

DIOGELU

*Byrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion*

**135 Swyddogaethau a gweithdrefnau Byrddau Diogelu**

(1) Amcanion Bwrdd Diogelu Plant yw—

(a) amddiffyn plant o fewn ei ardal sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin, eu hesgeuluso, neu ddioddef mathau eraill o niwed, a

(b) atal plant o fewn ei ardal rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed.

(2) Amcanion Bwrdd Diogelu Oedolion yw—

(a) amddiffyn oedolion o fewn ei ardal—

(i) y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth (p'un a yw awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un neu rai o'r anghenion hynny ai peidio), a

(ii) sy'n cael, neu sy'n wynebu risg o gael, eu cam-drin neu eu hesgeuluso, a

(b) atal yr oedolion hynny o fewn ei ardal y soniwyd amdanynt ym mharagraff (a)(i) rhag dod yn rhai sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso.

(3) Rhaid i Fwrdd Diogelu geisio sicrhau ei amcanion drwy gydgysylltu'r hyn a wneir gan bob person neu gorff a gynrychiolir ar y Bwrdd a gwneud yn siŵr ei fod yn effeithiol.

(4) Rhaid i reoliadau—

(a) darparu i Fwrdd Diogelu gael swyddogaethau sy'n ymwneud â'i amcanion (gan gynnwys, er enghraifft, swyddogaethau adolygu neu ymchwilio);

**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(b) gwneud darpariaeth ynghylch y gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan Fwrdd Diogelu;

(c) pennu pryd a sut y mae'n rhaid i blant neu oedolion y mae swyddogaethau Bwrdd Diogelu yn effeithio arnynt, neu y gallent effeithio arnynt gael cyfle i gymryd rhan yng ngwaith y Bwrdd.

(5) Caiff Bwrdd Diogelu gydweithredu ag un neu fwy o Fyrddau Diogelu eraill.

(6) Caiff Bwrdd Diogelu weithredu ar y cyd ag un neu fwy o Fyrddau Diogelu eraill mewn perthynas â'u hardaloedd cyfun ac os byddant yn gwneud hynny—

(a) mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at Fwrdd Diogelu i'w darllen fel cyfeiriadau at y Byrddau sy'n gweithredu ar y cyd, a

(b) mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at ardal Bwrdd Diogelu i'w darllen fel cyfeiriadau at yr ardal gyfun.

(7) Caiff y Bwrdd Diogelu Plant a'r Bwrdd Diogelu Oedolion ar gyfer ardal ffurfio cyd-fwrdd ar gyfer yr ardal, ac os ydynt yn gwneud hynny—

(a) mae'r cyd-fwrdd i gael yr amcanion yn is-adrannau (1) a (2), a

(b) mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at Fwrdd Diogelu i'w darllen fel cyfeiriadau at y cyd-fwrdd.